

## Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion at Emlyn Davies (Tanyfron) ac Eleri Davies (Nantglyn) sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos. Da deall bod y ddau yn gwella, a bod Eleri wedi cael dod adref erbyn hyn, fel ag y mae Myra Hughes (Saron) sydd wedi dychwelyd i Gartref Maes Elwy. Yn Ysbyty Glan Clwyd ers rhai dyddiau hefyd y mae Annie Griffiths (Llansannan), ac mae Olwen Cottle (Henllan) yn parhau yn Ysbyty Maelor yn dilyn ei llawdriniaeth hithau. Mae eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd. Cofiw'n amdanynt hwythau, ac eraill sy'n mynd trwy amryw dreialon bywyd. Cyflwynwn hwy oll, ynghyd â'u teuluoedd, i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn profi breichiau yr Arglwydd yn eu cofleidio, a'i ofal a'i heddwch yn ddigon iddynt yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn arholiadau yn y gwahanol golegau yn ddiweddar. Dymunwn bob llwyddiant wrth i chi barhau â'ch astudiaethau neu wrth i chi ymgeisio am swydd.

## I ddod

- **Adnabod DAWN** - y sesiwn olaf cyn yr haf yn y gyfres i feithrin arweinwyr lleol ar nos Fawrth, Gorffennaf 17eg.
- **Adnabod Cymdeithasol** nos Fercher, Gorffennaf 18fed – taith gerdded hamddenol. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd nos Iau, Gorffennaf 26ain am 7.30.
- **Cwrs Ieuencid (Blwyddyn 7-11)** yng Ngholeg y Bala Gorffennaf 30ain - Awst 3ydd. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Anrhefn Awst (8-12 oed)** yng Ngholeg y Bala Awst 13eg – 16eg. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Souled Out (15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc)** yng Ngholeg y Bala, Awst 18fed – 24ain. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.

*Bydd gostyngiad o £10 i bob un (hyd at 18 oed) o'r Ofalaeth fydd yn mynychu un o'r cyrsiau uchod yng Ngholeg y Bala. (Os bydd y coffrau'n caniatau, mae'n bosib y gall yr Henaduriaeth hefyd gynnig gostyngiad o £10 yr un.) Cysylltwch â Mair ynglŷn â'r gostyngiadau (870632).*

- **Aduniad Llanw** yng Ngholeg y Bala Medi 28ain-29ain. Cyfle i addoli, cymdeithas ac astudio gair Duw. Pris: oedolyn £45, plentyn £35. I archebu lle neu fwy o fanylion, cysylltwch â'r coleg: 01678 520565 / [colegybala@ebpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebpcw.org.uk)

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8<sup>fed</sup> Gorffennaf 2012

"A beth bynnag oll y gofynnwch amdano mewn gweddi, os ydych yn credu, fe'i cewch." (Math.21:22)

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Bore da iawn i chi a chroeso i oedfaon y dydd! Beth fydd ein gweddi heddiw tybed? Byddaf yn meddwl weithiau am yr holl weddiâu sy'n codi o'r Ofalaeth ac yn meddwl am Dduw yn eu derbyn ac yn eu hateb. Mae'n rhaid ei fod yn Dduw mawr, a dyna sydd yn wir yn siŵr.

Mae'r Beibl yn cynnwys geiriau gweddi nifer fawr o bobl ac yn y Testament Newydd y mae gennym gofnod o weddiâu Crist ei hun. Mae Iesu yn ein dysgu i fod yn daer mewn gweddi ac mae'n rhoi esiampl i ni o weddi – gweddi'r Arglwydd. Oes 'na bwynt gweddio? Sut mae gwybod os yw Duw yn gwrandao ac yn ateb?

Un o'r pethau dwi wedi sylwi arno yn ddiweddar ydi cywion yr adar bach. Maent yn gynnwrf i gyd, yn ysgwyd eu plu, yn gweiddi'n daer am fwyd gan y fam a'r tad. Weithiau bydd y fam ymhell o'r golwg ond dydi hynny ddim yn stopio cri y cyw. Bydd y cyw yr un mor daer er na fydd yn gweld y bwyd yn dod! Mae'n siŵr ei fod yn credu y bydd yn cael tamed arall cyn hir – mae yn ffyddiog! Bydd y fam yn cyrraedd yn y man hefo rhyw bryfn bach blasus ac yn ei roi wrth geg y cyw. Bydd hwnnw bron â thagu wrth ei lowcio'n ddiolchgar. I ffwrdd a'r fam eto a chyn hir bydd y gynffon yn crynu eto a'r plu yn codi, a'r taerineb yn dod yn ôl i gri y cyw!

Oes 'na bwynt i weddi? Oes, os ydym yn newynog am Dduw, ein Tad nefol. Amdano fo 'dan ni'n gweddio fel y cyw yn galw am ei fam. A sut rydan ni'n gwybod os ydym wedi cael ateb i'n gweddi? Fel y mae'r cyw yn cael ei fwydo, felly y mae presenoldeb Duw yn ein llenwi â gorfoledd a sicrwydd a thangnefedd. Nid cael 'pethe' gan Dduw a wnawn trwy weddi ond cael Duw ei hun!

Gweddiwn felly heddiw am Dduw ei hun: "Y mae fy enaid yn sychedu am Dduw, am y Duw byw.." (Salm 42:2) Ac o gael Duw, oni chawn ni bopeth arall?

Gweddiwn hefyd dros ein gilydd fel y bydd presenoldeb yr Arglwydd yn dod yn brofiad i lawer mewn galar ac anhwylder; ac wrth edrych ymlaen, rhown ein oll i ofal y Duw sydd yn ein caru mor fawr ac a roddodd ei Fab yn Waredwr mor berffaith i ni.

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Dod i Adnabod – Grŵp Aneurin a Rhodri** yn cyfarfod yn Groes am 7.30.
- Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth Mae cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb. Enwau i Haf (582215) erbyn nos Lun, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac oedfa deuluol yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 pryd y bydd Rhydian a Glesni yn cyflwyno Mali Elis ac Edi Glynne i gael eu bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair – ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau